

Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu

Irene Watts - trawsgrifiad

IW: Mae gen i ddelweddau mor gryf o beth ddigwyddodd, maen nhw fel lluniau wedi'u hargraffu ar fy ymennydd, o'r hyn a ddigwyddodd yn y, yn y gwahanol rannau o'r tŷ. Roedd yna noson ac rwy'n gwybod o waith ymchwil lle—yn union pryd oedd hi: '38 oedd hi, wrth gwrs, a'r diwrnod pan fyddai'n rhaid anfon unrhyw un a oedd yn briod â rhywun o Wlad Pwyl i'w wlad enedigol.

Ac roeddwn i yn fy ystafell, yn cysgu, ac fe wnes i, fe wnes i ddeffro ac o gwmpas fy ngwely roedd fy mam a fy nhad a chwaer ieuengaf fy nhad, Greta, a'i gŵr a chefnder 13 oed yn sefyll. Hi oedd ei hoff chwaer, er mai dim ond o bryd i'w gilydd y bydden ni'n eu gweld nhw, bydden nhw'n cael eu gwahodd am bryd o fwyd.

A dwi'n cofio bod ganddi sgarff o gwmpas, o gwmpas ei phen ac roedden nhw i gyd wedi gwisgo mewn du, ac mae'n rhaid ei bod hi'n unarddeg o'r gloch y nos, ac fe ddaethon nhw i ffarwelio cyn cael eu halltudio i Wlad Pwyl.

A dwi'n cofio'r ddelwedd gref iawn.

[...]

IW: Rwy'n cofio'r diwrnod y daeth fy nhad yn ôl o Sachsenhausen ac eisteddodd—roedd yna ddreser—mae'n rhaid i chi ddychmygu eu llofft ac yna roedd ystafell wisgo lle'r oedd fy nhad yn eillio bob bore—roedd rhywun yn dod i fyny i'w eillio bob bore - ac roedd popeth i'w weld wedi'i wneud o sidan gwyrdd tywyll - wn i ddim, sidan gwyrdd tywyll oedd cwilt fy mam - ac yna roedd fy ystafell wely yn gyfagos. Ac eisteddodd yn y gadair yma ac roeddwn i'n eithaf ofnus o ran sut roedd yn edrych oherwydd bod ei wallt wedi eillio ac roedd yn denau iawn ac yn welw iawn ac eisteddodd yn y gadair. A dwi'n cofio ei ddwylo a'i fysedd hir tenau ac roedd yn edrych fel bwgan. Roeddwn yn ofni mynd yn agos ato.

A dywedodd fy mam, “O edrych, mae dy dad wedi dod adref o'i wyliau ac mae wedi dod ag anrheg i ti”, a daeth â marsipán i mi, sef fy hoff fath o siocled. A dwi bob amser yn cofio hynny. Er fy mod yn gwybod yn reddf, nad oedd wedi bod ar wyliau. Wn i ddim, roeddwn i'n gwybod hynny oherwydd doedd neb yn edrych fel yna. Doeddwn i ddim wedi gweld neb yn edrych fel yna.

A chi'n gwybod beth, nid tan oeddwn i, o, bron yn 60 oed y cefais wybod ei fod wedi cael—sut y cafodd ei drin yn Sachsenhausen. Cefais wybod hyn oherwydd bod cefnder yn Israel wedi ysgrifennu ataf ac wedi dweud wrthyf. Ac roedd wedi cael ei orfodi i sefyll yn noeth drwy'r nos, wyddoch chi, yn y sgwâr y noson honno pan aethon nhw â'r dynion i gyd i Sachsenhausen, ac roedden nhw wedi cael eu chwipio.

Ac roedd fy nhad yn ddyn hynod o ofalus, a doedd e ddim yn ddyn cryf, roedd e'n ddyn eiddil. Ac nid wyf yn meddwl iddo wella erioed ar ôl y cwpl o fisoedd neu wythnosau yn Sachsenhausen.

[...]

Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu

Irene Watts - trawsgrifiad

IW: Roedd beth oedd yn digwydd yn y ddinas yn cael ei adlewyrchu yn fy mywyd. Er enghraifft, es i i ddosbarth dawnsio ac roeddwn i, fe gefais fy nhynnu oddi yno er fy mod wrth fy modd. A chlywais fy mam yn dweud wrth wahanol bobl, 'O, doedd Irene ddim yn hoffi'r farnis ewinedd ar ddwylo'r athrawes', sy'n anwiredd llwyr. Ac eto, y cadw'n dawel yma. Yn amlwg, roeddwn i'n Iddew. 'Fedrwyd chi ddim mynd i'r dosbarth dawnsio'. Roeddwn i'n ysu eisiau mynd i'r sinema —roedd yna ffilm Shirley Temple—ond rwy'n cofio'n glir iawn, iawn, yr arwydd mawr, y seren Iddewig a'r geiriau 'Ni chaniateir Iddewon' ac ni allwn fynd. Mae pethau felly, yn glir iawn.

Cyfwelydd: A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am eich bywyd cyn i'r rhyfel ddechrau?

IW: Oes, dwi'n gofyn i mi fy hun pam na ches i'r hawl i ffarwelio â fy nhaid cyn i mi adael. Roeddwn i wedi mynd i ysgol Montessori - meithrinfa Montessori am wn i - un diwrnod fe stopiodd hynny ac roeddwn i gartref. Roedd hynny cyn i mi fynd i ysgol Kaliski. Unwaith eto, rwy'n tybio oherwydd fy mod yn Iddew.

Rwyf hefyd yn cofio yn glir iawn mod i bob amser yn gwisgo Seren Dafydd fach aur, ond roeddwn i'n ei gwisgo oddi tano, chi'n gwybod, doeddwn i ddim yn ei gwisgo ar y tu allan roeddwn i'n ei gwisgo y tu mewn, ond roeddwn i bob amser yn ei gwisgo.